Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cardiau adnoddau

# Deall system afon

## Tarddiad

Y pwynt lle mae afon yn cychwyn.

## Ceunant

Ble mae rhaeadr/afon wedi erydu i mewn i'r creigwely amgylchynol ac wedi ffurfio sianel ddiffiniedig.

## Rhaeadr

Caiff ei ffurfio'n aml pan fydd afon wedi erydu craig feddal a gadael y graig galed ar ôl ar lefel uwch, gan orfodi'r dŵr i lifo o lefel uwch i lefel is.

## Ystum afon

Wrth i'r afon erydu yn llorweddol i'r ochr dde ac yna i'r ochr chwith, mae'n ffurfio troadau mawr (ystumiau). Mae grym y dŵr yn y sianel yn erydu a thandorri glan yr afon ar ochr allanol yr ystum gan fod llif y dŵr yn gryfach yma. Ar du mewn yr ystum, lle mae llai o egni gan yr afon, bydd deunydd sy'n cael ei gario gan y dŵr yn cael ei ddyddodi.

## Llednant

Afon fach yn llifo i mewn i afon fwy.

## Gorlifdir

Ardal o dir wrth ochr afon sy'n cael ei gorchuddio â dŵr adeg llifogydd. Mae hyn fel arfer ar dirwedd wastad.

## Llifglawdd

Yn ystod llifogydd, mae cyflymder yr afon yn arafu ac yn dyddodi unrhyw ddeunyddiau mae'n cario e.e. mwd, llaid a chreigiau. Bydd y deunyddiau hyn yn cael eu dyddodi ar lannau'r afon a dros nifer o flynyddoedd gallant ffurfio glannau uchel.

## Aber

Dyma'r pwynt lle bydd afon yn cyrraedd y môr.

## Ystumllyn

Ystum a gafodd ei adael. Mae'r afon yn erydu ochr allanol yr ystum a dyddodi ar ochr fewnol yr ystum wrth iddi lifo lawr y dyffryn. Mae erydiad yn culhau'r ystum ac yn ystod cyfnodau o lif uchel e.e. yn ystod llifogydd, bydd yr afon yn torri trwy'r darn cul. Bydd yr afon yn parhau ar ei thaith ond bydd yr hen ystum yn cael ei adael gan greu ystumllyn.

## Erydiad

Mae grym y dŵr cyflym yn treulio'r graig a'r pridd ar hyd gwely a glannau'r afon.

## Dyddodiad

Pan fydd afon yn colli egni bydd yn gollwng neu ddyddodi ychydig o'r deunyddiau y mae'n cario. Mae dyddodi yn nodwedd gyffredin ar ddiwedd taith afon.

## Traeth afon

Mae'r afon yn llifo'n araf ar adran fewnol ystum, felly nid yw'n gallu cario'r deunyddiau mwyaf yn llif yr afon. Bydd y creigiau a'r deunyddiau mwy hyn yn cael eu dyddodi i ffurfio traeth.